

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Broad Street a High Street,
Llanfair-ym-Muallt, Powys)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2024

The A483 Trunk Road (Broad
Street & High Street, Builth Wells,
Powys) (Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2024

Gwnaed 8 Ebrill 2024

Made 8 April 2024

Yn dod i rym 15 Ebrill 2024

Coming into force 15 April 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Broad Street a High Street, Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Ebrill 2024.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Broad Street & High Street, Builth Wells, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 15 April 2024.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 22:00 o’r gloch ar 15 Ebrill 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

5. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A483) (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Traffig Unffordd) 1983(1) drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â’r darnau o’r gefnffordd o’r enw y Strand, Church Street a West Street yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn yn weithredol.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

8 Ebrill 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 22:00 hours on 15 April 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

5. The provisions of the Trunk Road (A483) (Builth Wells, Powys) (One Way Traffic) Order 1983(1) are hereby suspended in respect of the lengths of the trunk road known as The Strand, Church Street and West Street during such times as the prohibition specified in article 3 of this Order is in operation.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

8 April 2024

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Broad Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r A470 Castle Street hyd at ganolbwynt ei chyffordd â King's Head Lane.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw High Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â King's Head Lane hyd at bwynt 3 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw High Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o bwynt 3 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street hyd at bwynt 3 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Market Street.

SCHEDULE

The length of the trunk road known as Broad Street, Builth Wells that extends from a point 10 metres west of its junction with the A470 Castle Street to the centre-point of its junction with King's Head Lane.

The length of the trunk road known as High Street, Builth Wells that extends from the centre-point of its junction with King's Head Lane to a point 3 metres east of the centre-point of its junction with Strand Street.

The length of the trunk road known as High Street, Builth Wells that extends from a point 3 metres west of the centre-point of its junction with Strand Street to a point 3 metres east of the centre-point of its junction with Market Street.